

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEDR Y.C. NOS LUN 28AIN O ORFFENNAF 2014 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Jill Evans, Falmai Evans, Gwennan Hughes, Bari Evans, Iwan Jones, Hywel Davies, Stan Williams a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIAD: Y Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 30ain o Fehefin 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Scottish Power yn cadarnhau derbyniad llythyr y Cyngor ynglŷn ar Brosiect Cysylltu Ffermydd Wynt Gogledd Cymru. Derbyniwyd hefyd, er wybodaeth, gohebiaeth oddi wrth Gyngor Cymuned Llanefydd a Chris Ruane, Aelod Seneddol dros Ddyffryn Clwyd, ynglŷn ar wrthwynebiad i'r prosiect.

4. CYFETHOL DAU AELOD I'R CYNGOR.

Derbyniwyd pedair cais am y ddau set wag ar y Cyngor, sef:-

- A. Iona Edwards-Jones.
- B. Wyn Jones.
- C. Nerys Mosford-Jones.
- D. Elfed Williams.

Ar ôl trafodaeth a phleidlais etholwyd Iona Edwards-Jones ac Elfed Williams yn Aelodau o'r Cyngor. Penderfynwyd y Clerc ysgrifennu at Mrs Iona Edwards-Jones a Mr Williams yn cadarnhau eu bod yn Aelodau o'r Cyngor ac i ddiolch i Mrs Mosford-Jones a Mr Jones am ddangos diddordeb am fod yn Aelod o'r Cyngor.

5. CYLLID.

- A. Datganiad Banc - £12,302.00.
- B. Tal i Gyngor Sir Ddinbych am ddau gyfarfod y Cyngor - £35.00.
- C. Derbyniwyd manylion Cynhadledd/Arddangosfa & Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru ar Sadwrn 4ydd Hydref 2014. Penderfynwyd y Cynghorwyr Philip Williams a Hywel Davies fynychu'r cyfarfodydd am y gost o £140.00.

6. MATERION CYNLLUNIO.

- A. Derbyniwyd gwybodaeth bod Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r cais cynllunio ail adeiladu adeilad newydd i lanhau ceir ym Mhentre' Motors, Llanrhaeadr.
- B. Cais Cynllunio am adeilad parlwr godro yn Llwyn Banc, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.
- C. Cais cynllunio am newid defnydd tir i faes carafannau a champio ar gae yng Nghae'r Mynydd Saron. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais yn cynnwys y sylwadau canlynol:-
  - 1. Cefnogi pobl leol sydd yn gwrthwynebu'r cais cynllunio.
  - 2. Nid yw'r cae yng Nghae amaethyddol.
  - 3. Mae'r mynediad i'r cae ddim yn addas.
  - 4. Mae'r ffyrdd ddim yn addas i'r datblygiad.

5. Bydd yna fwy o garafannau a champio na thai yn Saron.
6. Mi fydd yna bobl yn byw yn barhaol ar y safle.
7. Mi fydd yna sŵn ar y safle.
8. Mae yna faterion hawliau dynol.
9. Mae'r ymgeisydd wedi derbyn cyngor gan yr Adran Cynllunio ynglŷn ar gais cynllunio.

#### 7. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd gwybodaeth gan Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych bod y ffordd o'r Gof Golofn tuag at Brion yn cael wyneb newydd yn y flwyddyn ariannol bresennol.
- B. Gofynni'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych am restr o'r ffyrdd am wariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn 2015/16. Penderfynwyd ar y ffyrdd canlynol yn y gymuned:
  1. Fron, Prion tuag at Gapel Saron.
  2. Pen-y-coed tuag at Llwyn-y-Gog, Prion.
  3. Lon Drws-y-Buddel, Saron.
  4. Cefn Maen tuag at Erw Las, Saron.
  5. Tŷ Isaf tuag at Rossa Bach, Prion.
- C. Derbyniwyd llythyr gan Mr Darren Millar, Aelod Cynulliad dros Orllewin Clwyd, i fynychu'r cyfarfod nesaf y Cyngor.
- D. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

#### 8. UNRHYW FATER ARALL.

- A. Penderfynwyd tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-
  1. Mae eisiau torri glaswellt y ffyrdd.
  2. Mae yna gerrig yn rhydd ar y waliau pob och i'r ffordd rhwng Y Lodge a'r King's Head yn Llanrhaeadr.
  3. Mae yna gwli eisiau ei glanhau wrth Dyddyn Isaf, Phrion.
- B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at berchennog newydd Tŷ'r Ysgol, Pant Pastynog yn gofyn iddynt roi'r wal yn ôl gyda'r terfyn Ysgol Pant Pastynog.
- C. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc hysbysu BT ynglŷn ar dyfiant yn y Ciosg Ffon ym Mhrion.
- D. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ar Nawdd Cymunedol Fferm Wynt Coedwig Clocaenog.

#### 9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 29ain o Fedi 2014 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.